# 11eg Cyfarfod Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau PBC

## Ystafell Banw, Y Drenewydd
## 8fed Tachwedd 2013

**Presennol:** Stephen Bladwell, Cadeirydd (RSPB Cymru); Sean McHugh, Ysgrifenyddiaeth (PBC); Steve Lucas (BCT); Claire Install (*British Dragonfly Society*); Mark Barber (ARC); Rob Strachan (CNC); Adrian Fowles (CNC); Liz Howe (CNC); Dave Lamacraft (*Plantlife Cymru*); Sian Whitehad (CNC); Liz Halliwell (CNC); Andy Jones (CNC);

**Ymddiheuriadau:** Mike Bruford (Prifysgol Caerdydd);Russel Hobson (BC); Reg Thorpe (RSPB Cymru);Trevor Dines (*Plantlife Cymru*); Lizzie Wilberforce (YBGC); Sarah Bird (Sŵ Caer); Rachel Taylor (BTO); Tim Rich (Amgueddfa Cymru); Sinead Lynch (BBCT); Sam Bosanquet (CNC/BBS); Jean Matthews (CNC); Steve Chambers (LlC); Ray Woods (Ymgynghorydd); Dan Foreman (Prifysgol Abertawe); Craig MacAdam (*Buglife*)

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir.

| Rhif | Diweddariad/Cam gweithredu | Gan bwy /pryd | Sylwadau Ychwanegol |
|---|---|---|---|
| 1 | *Diweddariad Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru. Mae'r bwrdd yn ystyried yr egwyddorion arweiniol ar gyfer y Cynllun Strategaeth Bioamrywiaeth/adferiad Natur. Mae Grŵp Llywio PBC yn awr wedi cau. Bydd Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau a nodwyd yng nghylch gorchwyl y Grŵp Llywio. Bydd Cadeiryddion y Grŵp PBC yn cytuno ar gylch gorchwyl newydd ar gyfer eu Grŵp a byddan nhw'n drafftio cylch gorchwyl wedi'i adnewyddu ar gyfer Grwpiau Arbenigwyr Rhywogaethau ac Ecosystemau PBC, gan fod y rhain angen eu diweddaru. Bydd aelodaeth o Fwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru a Chadeiryddion Grwpiau PBC fel ei gilydd yn cael eu diwygio lle bo'n briodol, er mwyn sicrhau bod sefydliadau a oedd wedi'u cynrychioli o'r blaen ar y Grŵp Llywio yn cael eu cynnwys. Gall Cadeiryddion Grwpiau PBC felly gynnwys cynrychiolaeth gan | Stephen/Liz i ddiweddaru CG Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau. | *Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru - mae trafodaethau yn digwydd ynghylch enwi'r bwrdd ac mae Bwrdd Strategaeth Natur Cymru wedi cael ei gynnig. Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 6ed Rhagfyr. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gadeirydd o Rwydwaith Bioamrywiaeth Leol/Ranbarthol er mwyn sicrhau bod cysylltiadau lleol yn cael eu cadw. Bydd y cyfathrebu rhwng Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru a Grŵp Cadeiryddion PBC yn cael ei gryfhau, gydag agendâu a phapurau dewisol ar gyfer y Bwrdd yn cael eu cylchredeg i'r Grŵp Cadeiryddion PBC cyn y cyfarfodydd. Bydd sylwadau'r cadeiryddion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod. | | |
| 2 | Cronfa natur £6miliwn LlC. Mae LlC yn chwilio am brofion o gysyniad A4 (heb eu costio) erbyn 16eg Rhagfyr.<br>Grwpiau Arbenigwyr Rhywogaethau i ddarparu cynrychiolydd i weithdai lleol Cronfa £6m LlC i gefnogi grwpiau bioamrywiaeth lleol i ddatblygu cysyniadau/syniadau prosiect i'w cyflwyno i'r gronfa. Bydd CNC yn mynychu'r gweithdai ac maen nhw eisoes wedi cyflwyno syniadau yn dilyn ymarfer sylfaenol. Bydd y cynllun cyllido yn cael ei ddatblygu yn y Flwyddyn Newydd. Bydd angen gwario'r cronfeydd erbyn Mawrth 2015. Croesawodd y GARh y gwariant £6m, ond roedd ganddyn nhw amheuon ynghylch strwythur y cyllid a'r dyddiad cau tynn a ragwelir. | Sean i ailgylchredeg manylion y gweithdy.<br><br>Pawb - gadewch i Sean wybod os ydych yn mynychu un o'r 3 gweithdy.<br><br>Pawb - rhannwch eich syniadau gydag aelodau'r GARh er mwyn datblygu cynigion profion o gysyniad.<br><br>Pawb - cyflwynwch brofion o gysyniad erbyn **16eg Rhagfyr** a nodwch os ydyn nhw'n rhan o raglen waith y GARh.<br><br>Liz Howe i rannu syniadau cyllido CNC a ddatblygwyd ar gyfer cronfa £6m. | Dydd Llun 2 Rhagfyr (10:00 -12:00) – Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful<br>• Dydd Mercher 4 Rhagfyr (10:00 -12:00) – Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Aberystwyth<br>• Dydd Llun 9 Rhagfyr (10:00 – 12:00) – Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Cyffordd Llandudno. Cysylltwch â naturalresourcemanagement@wales.gsi.gov.uk i gofrestru ar gyfer y gweithdy. |
| 3 | Ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Bil yr Amgylchedd<br>Mae'r Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru yn amlinellu'r cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd (Cymru) ac mae ar agor ar gyfer ymgynghoriad tan 15 Ionawr 2014. | Pawb - cyflwynwch eich ymatebion erbyn **15 Ionawr 2014**<br>Cyswllt: http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?skip=1&lang=cy | Mae cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori rhanbarthol i drafod y cynigion ym Mhapur Gwyn Bil yr Amgylchedd yn digwydd:<br>Dydd Llun 2 Rhagfyr (1 tan 4pm) – Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Dydd Mercher 4 Rhagfyr (1 tan 4pm) – Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Aberystwyth; Dydd Llun 9 Rhagfyr (1 tan 4pm) – Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Cyffordd Llandudno. Cysylltwch â naturalresourcemanagement@wales.gsi.gov.uk i gofrestru ar gyfer y gweithdy. |
| 4 | Prosiectau Cronfa Ecosystemau Gwydn.<br>Liz Howe oedd Cadeirydd yr is-grŵp PCE y GARh. Cafodd 9 o brosiectau cysylltiedig â rhywogaethau eu cyflwyno ar y cychwyn, roedd 3 yn llwyddiannus, yn cynnwys prosiect brith y gors, prosiect llygoden bengron y dŵr a phrosiect amffibiaid/ymlusgiaid. | Gweithredu: Liz Howe i rannu'r cynigion llwyddiannus gyda'r GARh unwaith bydd llythyrau derbyniad ffurfiol wedi cael eu derbyn. | |
| 5 | Gwaith integreiddio rhywogaethau-cynefinoedd<br>Yng nghyfarfod Gorffennaf 2013 ystyriodd y GARh y gwlyptiroedd ac mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen. Cyfrannwyd sylwadau yn ystod y cyfarfod ac mae angen sylwadau pellach ar y cynefinoedd arbenigol / disgrifyddion adnoddau a amlinellwyd yn nhaflen waith gwlyptiroedd *Excel* a'r argymhellion generig ar gyfer dogfen ar gynefinoedd gwlyptiroedd gan Peter Jones (cors bori i'w chwblhau). Gofynnodd y GARh i'r cyd-destun gael ei ddatblygu ar gyfer y gwaith integreiddio. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, gellir bwydo'r rhain i adolygiad Glastir. | Pawb - mae angen sylwadau am gynefinoedd rhywogaethau arbenigol / disgrifyddion adnoddau ar gyfer cynefinoedd gwlyptiroedd â blaenoriaeth.<br>Mae angen anfon sylwadau erbyn **22ain Tachwedd at Stephen Bladwell**.<br>Stephen i ddrafftio cyd-destun par: Cynefinoedd rhywogaethau arbenigol / disgrifyddion adnoddau.<br><br>Pawb - mae angen anfon sylwadau par: argymhellion ar gyfer cynefinoedd gwlyptiroedd tir isel generig **at Stephen Bladwell erbyn 22ain** | Mae croeso i sylwadau mewn perthynas ag argymhellion rheoli **generig** ar gyfer cyflawni cyflwr cynefinoedd mewn gwlyptiroedd a fydd yn darparu budd yn ogystal i rywogaethau - heb nodi'r holl anghenion rheoli penodol ar gyfer rhywogaethau unigol neu grwpiau o rywogaethau â blaenoriaeth yn y cynefinoedd hyn.<br><br>Mae mecanwaith ar gyfer diwygio rhestr S42 yn cael ei ddatblygu. Yn flaenorol, swyddogaeth y GARh PBC oedd hyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r GARh wedi derbyn sylwadau ar y cysylltiadau rhywogaethau ar gyfer cynefinoedd gwlyptiroedd ac mae wedi gofyn am sylwadau pellach cyn iddo gael ei gymeradwyo'n derfynol. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd canllawiau cysylltiedig yn dod gyda'r rhestr.<br><br>Coetiroedd - mae angen cwblhau'r gwaith integreiddio. Mae'r GARh wedi gweithio gyda'r corff etifeddol Comisiwn Coedwigaeth Cymru i ddatblygu argymhellion ac mae angen i'r GARh ailystyried er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn cwrdd ag anghenion y rhywogaethau.<br><br>Gweundiroedd - y gwaith integreiddio (gweundir yr ucheldir a gweundir yr iseldir) oedd y cyntaf i dderbyn ymdriniaeth gan y GARh ac mae hyn mewn defnydd, ac mae'n dylanwadu ar reoli gweundiroedd a bydd yn cael ei fireinio yn dilyn adborth gan y Grŵp Glaswelltiroedd a Gweundiroedd yr Iseldir.<br><br>Y grwpiau nesaf i'w targedu o bosibl yw dyfroedd croyw a dyfroedd yr arfordir, ond mae angen i'r GARh asesu gyda'r Grwpiau Ecosystemau beth yw'r flaenoriaeth bennaf yng Nghymru ar gyfer camau nesaf y gwaith. | **Tachwedd**.<br><br>Stephen i gylchredeg nodyn adolygu Glastir.<br><br>Pawb - mae angen anfon sylwadau par: cysylltiadau Rhywogaethau ar gyfer cynefinoedd gwlyptiroedd **at Stephen Bladwell erbyn 22ain Tachwedd.**<br><br>Sean i gysylltu â Chris Tucker am ddiweddariad ar argymhellion ar gyfer rhywogaethau mewn coetiroedd. | |
| 5 | Targedau a Chamau Gweithredu'r Partneriaid Arweiniol. Amlinellodd Stephen bapur Fforwm Cadwraeth Adar Cymru a allai gael ei ddefnyddio o bosibl fel model ar gyfer gwaith arall gan bartneriaid arweiniol. Mae'r model yn cynnwys atebolrwydd, trywydd archwilio; a chysondeb. Roedd trafodaethau yn y cyfarfod yn dangos y gallai'r dull fod yn | Pawb - anfonwch eich sylwadau ar bapur Fforwm Cadwraeth Adar at Stephen.<br><br>Stephen i rannu'r gwaith y mae'r RSPB wedi'i wneud mewn perthynas â diffinio'r term 'atal colli bioamrywiaeth' a beth y | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymarferol ar gyfer rhai grwpiau tacsonomig, ond nid pob un, a beth yw'r diweddglo - statws cadwraeth ffafriol? | mae hyn yn ei olygu'n ymarferol.<br><br>Matthew Ellis i gylchredeg adolygiad IEEP o statws cadwraeth ffafriol (SCFf) o'r Fadfall Ddŵr Gribog a phapur Bywyd Adar ar SCFf ar gyfer rhywogaethau adar (Wedi'i gwblhau). | |
| 6 | Prosiect Bylchau Tystiolaeth PBC. Lansiwyd y prosiect ym mis Mehefin ac mae'n awr yn fyw ar wefan PBC. Mae cefnogaeth eang gan academyddion, Llywodraeth Cymru a sefydliadau ymchwil. Mae cynigion ar gyfer 3 prosiect y GARh hyd yma: Bryoffytau / Mwsoglau / Infertebratau hyd yma - mae angen mwy.<br><br>Bydd Liz Halliwell yn cyflwyno bylchau tystiolaeth ac anogir mwy gan y GARh.<br><br>Awgrymwyd Prifysgol y Drydedd Oes fel cyswllt da ar gyfer gwaith ar fylchau tystiolaeth. | Pawb - Adolygiad o fylchau tystiolaeth a sylwadau a wnaed gan Mike Bruford (colofnau I.J.K) yn 'Nhaenlen *Excel* 'Rhestr Bylchau Tystiolaeth' ar dudalen we Bylchau Tystiolaeth PBC ac i ddilyn yr awgrymiadau yn niweddariad Mike.<br><br>Pawb - adolygu a mireinio blaenoriaethau Grŵp bylchau tystiolaeth y GARh yn nhaenlen *Excel* 'Rhestr Bylchau Tystiolaeth'.<br><br>Pawb - cyflwyno cynigion ar gyfer prosiectau ymchwil.<br><br>Sean i gysylltu â Tracey ar y cynnydd hyd yma a'r prosiectau a gwblhawyd a'r cyswllt gyda Phrifysgol y Drydedd Oes. | Cyswllt prosiect Bylchau Tystiolaeth:<br><br>http://www.biodiversitywales.org.uk/cy-GB/Prosiectau-Bylchau-Tystiolaeth-PBC<br><br>Cyswllt: Tracey Lovering (tracey.lovering@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) |
| **Eitemau Sefydlog** | | | |
| 7 | Rhaglen waith y GARh. Treuliodd y grŵp amser yn diwygio'r cynllun gwaith ac mae angen sylwadau gan yr aelodau nad oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod.<br><br>Nodwyd bod rhai camau gweithredu yn dod o dan bolisi, ac | Pawb - anfonwch sylwadau ar y cynllun gwaith erbyn **22ain Tachwedd**<br><br><br>Cynnwys materion | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | nid yw grŵp polisi PBC yn weithredol mwyach - mae angen bwydo'r rhain i'r corff priodol – BSBC?<br><br>Mae'r camau gweithredu o gyfarfod y Cadeiryddion wedi'u cynnwys i raddau helaeth yn eitemau 1,2, 6.<br>Eitem sefydlog par: rhannu Cynlluniwr Gweithdy Mapio Blaenoriaethau gyda'r Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau.<br><br>Aelodaeth y Grŵp GARh - cafodd y rhestr ei hadolygu gan y GARh.<br><br>Eitemau ar gyfer agenda'r Cyfarfod nesaf. | polisi'r GARh fel eitem ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf y GARh.<br><br>Stephen Bladwell a Sean McHugh i rannu'r Cynlluniwr gyda'r Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau er mwyn hwyluso cynrychiolydd y GARh i fynychu'r digwyddiadau hyn.<br><br>Sean i ymgorffori sylwadau ac anfon rhestr wedi'i diweddaru at Lywodraeth Cymru.<br><br>Pawb i anfon eitemau ar gyfer agenda cyfarfod y GARh yn Ionawr/Chwefror 2014. | Mae hwn angen mewnbwn gan Gadeiryddion Ecosystemau er mwyn hysbysu'r GARh am weithdai cynefinoedd â blaenoriaeth sydd wedi cael eu cynllunio. |
| | **Dyddiad y Cyfarfod nesaf Ionawr/Chwefror 2014** | | |
| Camau gweithredu ac eitemau sy'n parhau | | | |
| i | Mewnbwn gan y GARh i ategu cyngor ar gynefinoedd sy'n codi o weithdai Mapio Blaenoriaethau Grwpiau Ecosystemau a gynhaliwyd gyda CGBLlau. | Sean/Sam. Defnyddio dull y cynllun peilot yng Nghymru yn y flwyddyn newydd. | Mae ymateb CGBLl wedi bod yn gadarnhaol tuag at y syniad.  Angen cadarnhau gyda Sam a'i gychwyn. |
| ii | Yr holl bartneriaid i anfon diweddariad byr at Sean am y prosiectau y maen nhw'n ymwneud â nhw er mwyn iddo ef eu cylchredeg i'r GARh. Yn ogystal, gellir cynnwys diweddariad treigl ar wefan PBC o dan adran y GARh. | Pawb/diwedd Rhagfyr. | Cyswllt y GARh ar wefan PBC:<br>[http://biodiversitywales.org.uk/en-GB/Species](http://biodiversitywales.org.uk/en-GB/Species) |
| iii | Cyfarfod Cadeiryddion PBC<br>Mae'r cyfarfod nesaf yng Ngwanwyn 2014 - angen diweddariad/eitemau gan y GARh ar gyfer y cyfarfod. | Pawb. | Camau gweithredu o gyfarfod y Cadeiryddion:<br>[http://www.biodiversitywales.org.uk/cy-GB/Cadeiryddion-y-Grp-Ecosystem](http://www.biodiversitywales.org.uk/cy-GB/Cadeiryddion-y-Grp-Ecosystem) |
| iv | BARS<br>Mae [BARS](BARS) 2 yn awr yn fyw - hawdd ei ddefnyddio, cynrychioli camau | Anogir pawb i ymweld â BARS newydd ac edrych am gyfleoedd i | Cyswllt BARS a gwybodaeth bellach:<br>http://www.biodiversitywa |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gweithredu yn ofodol, mae mapio blaenoriaethau o grwpiau ecosystemau ar gael ar BARS | fewnbynnu/roi sylwadau. | les.org.uk/cy-GB/System-Adrodd-am-Weithredu-Bioamrywiaeth-BARS<br><br>Cyswllt mapio blaenoriaethau PBC: http://www.biodiversitywales.org.uk/cy-GB/Grwpiau-Ecosystemau-a-Rhywogaethau |